Afasic CYMRU
voice for life
llais ar gyfer bywyd

Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oed ysgol

Roi geiriau gyda'i gilydd

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Mae plant y datblygu eu gallu i roi geiriau gyda'i gilydd o'u profiadau wrth chwarae, gwrando a deall geiriau a brawddegau.

Mae plant ifainc yn dechrau trwy ddefnyddio geiriau unigol ac yn raddol yn rhoi dau air gyda'i gilydd, yna tri a phedwar, gan ddefnyddio'r geiriau maen nhw'n eu gwybod. Ochr yn ochr ag adeiladu eu brawddegau eu hunain, mae plant yn aml yn defnyddio mynegiant cyfan y maen nhw wedi ei glywed a'i ddysgu, e.e. "Ble mae o wedi mynd?" neu "Pysgod a sglodion".

Dylanwedir ar yr hyn mae plentyn yn ei ddweud gan fedrau eraill megis eu dealltwriaeth, eu geirfa, eu cof, eu gallu i roi pethau yn y drefn iawn a'u stad emosiynol.

Yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol gynradd, mae plant yn datblygu'r ffordd maen nhw'n rhoi geiriau gyda'i gilydd mewn ffordd nodweddiadol. Yn raddol maen nhw'n defnyddio brawddegau hwy a chysyllteiriau mwy cymhleth i'w helpu i roi eu syniadau mewn trefn ac egluro digwyddiadau. Mae'r hyn maen nhw'n ddweud yn dechrau swnio'n dda o ran ffurf ac yn fwy gramadegol. Fodd bynnag, efallai bydd camgymeriadau yn dal i gael eu gwneud, e.e.: "Dwi bwyta afal."

Bydd adeiladu brawddegau mwy cymhleth yn helpu eich plentyn i ddefnyddio siarad i:

- ✓ Ymuno mewn sgyrsiau a siarad â ffrindiau
- ✓ Dweud wrthych chi beth sydd wedi digwydd neu sut maen nhw'n teimlo
- ✓ Egluro, cynllunio, trafod a gofyn cwestiynau
- ✓ Dweud stori
- ✓ Datblygu eu meddwl a'u rhesymu.

Bydd defnyddio siarad yn y ffyrdd hyn yn helpu eich plentyn hefyd i ddysgu ac i ddarllen ac ysgrifennu.

Os ydych chi'n pryderu am siarad eich plentyn, ewch i chwilio am gyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau cyffredinol am ffyrdd y gallwch chi helpu eich plentyn roi geiriau gyda'i gilydd i fynegi'r hyn maen nhw'n ei feddwl.

Helpwch eich plentyn i roi geiriau gyda'i gilydd i adeiladu brawddegau

Addaswch awgrymiadau i gyd-fynd ag oed a chyfnod datblygiad eich plentyn.

Gadewch i'ch plentyn ddechrau'r sgwrs! Gadewch iddo ef ddweud rhywbeth. Mae ar rai plant angen amser i feddwl beth i'w ddweud ac amser i ddod o hyd i'r geiriau (caniatewch hyd at ddeng eiliad).

Yn gyffredinol, osgowch gywiro eich plentyn, osgowch orffen y frawddeg ar ei ran, osgowch ofyn mwy nag un cwestiwn ac osgowch ofyn iddo ailddweud. Yn lle hynny rhowch gynnig ar y strategaethau cadarnhaol canlynol sy'n datblygu hyder.

Byddwch yn gefnogol a derbyn yr hyn mae eich plentyn yn ei ddweud, hyd yn oed pan nad ydych chi'n sicr beth mae'n feddwl. Mae hyn yn gadael i'ch plentyn wybod bod yr hyn mae'n ei ddweud yn bwysig.

Ailddywedwch frawddeg y plentyn mewn ffordd gywir fel ei fod yn clywed enghraifft dda neu fodel. Plentyn: "Sgorio gôl" Oedolyn: "Rwyt ti wedi sgorio gôl?"

Adeiladwch ar yr hyn mae eich plentyn yn ei ddweud trwy ymhelaethu ychydig ar yr hyn mae'n ddweud, gan ychwanegu un syniad. Er enghraifft, Plentyn: "Dwi'n sgorio gôl" Oedolyn: "Rwyt ti wedi sgorio gôl mewn pêl-droed! Gwych!"

Siaradwch am bethau mewn sefyllfaoedd go iawn ac am bethau y gall eich plentyn fod â diddordeb ynddyn nhw. Anogwch eich plentyn i siarad am lawer o wahanol bethau. Er enghraifft, gall mynd i'r parc gyda ffrind, teithio ar drên, ymweld â siop anifeiliaid anwes ac edrych ar luniau mewn gwahanol fathau o lyfrau greu syniadau ar gyfer pethau y gall eich plentyn fod â diddordeb mewn siarad amdanyn nhw.

Helpwch eich plentyn i roi trefn ar eu meddyliau a'u syniadau yn y fan a'r lle. Mae'n helpu i ddeall y gall pethau ddigwydd mewn trefn arbennig. Siaradwch â'r plentyn am yr hyn rydych chi'n wneud/beth sy'n digwydd gan ddefnyddio geiriau fel: yn gyntaf, nesaf, yna, yn olaf. Gwnewch hyn dro ar ôl tro gyda gwahanol orchwylion beunyddiol (amser bath, amser te), gweithgareddau fel crefftau neu goginio ac yn ystod gweithgaredd chwarae neu edrych ar lyfr gyda'ch gilydd.

Gall hyn gael ei ymestyn trwy gofio beth sydd wedi digwydd yn barod a'i ailadrodd. Er enghraifft, egluro rysait, cofio taith diwrnod, ailadrodd hoff ran mewn stori neu ffilm. Yn lle gofyn gormod o gwestiynau, cynigiwch syniad a rhannwch y siarad. Dyma fwy o syniadau:

- Defnyddiwch galendr wal i'ch helpu i gofio ac ailadrodd beth sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnos.

- Cymerwch ychydig o luniau i wneud 'stori ffoto' o ychydig gamau mewn trefn gyfarwydd neu pan fyddwch chi allan yn rhywle, y gallwch wedyn siarad amdano. Er enghraifft, gwneud tost, adeiladu castell tywod neu roi bwyd i'r ci.

- Dewch â gwrthrych adref o daith allan yn rhywle. Defnyddiwch y gwrthrych hwn fel proc i helpu eich plentyn gofio beth wnaethoch chi a beth ddigwyddodd. Er enghraifft, deilen, cragen, tocyn.

Bydd ailadrodd trefn fer yn dangos i'ch plentyn sut i ddweud wrthych chi beth ddigwyddodd, yn helpu i adrodd storïau ac ar gyfer plant hŷn, i ysgrifennu stori.

Siaradwch â'ch plentyn ynghylch beth i'w wneud pan fydd yn ei chael hi'n anodd egluro rhywbeth. Gadewch i'ch plentyn wybod ei bod hi'n iawn dweud, "Mae angen help arna i" neu "mae hwn yn anodd". Helpwch trwy roi rhagor o amser, cychwyn y peth a rhoi enghreifftiau. Gallwch hefyd geisio procio gyda geiriau i helpu eich plentyn gysylltu eu syniadau neu roi trefn arnyn nhw.

Er enghraifft, Plentyn: "Mi welson ni gwningen" Oedolyn: "Mi welson ni gwningen *ac wrth ei hymyl…"*